COFNODION CYFARFOD
O BWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
22ain O FEDI 2009 AM 7.00PM
SWYDDFA MENTER LLAMBED, LLANBEDR PS

YN BRESENNOL

CYNGOR TREF LLANBEDR PS
Cyng. Maer Selwyn Walters (Cadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Chris Thomas; Derek Wilson.
YN GWEINYDDU
Eleri Thomas – Clerc Cyngor Tref Llambed

MUDIAD MYDTARA
Sue Davies

CLWB RYGBI A PHÊL DROED LLANBEDR PS
Cyng. Greg Evans.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Selwyn Walters aelodau'r Cyngor Tref a chynrychiolwyr MYDTARA i'r cyfarfod. Estynwyd dymuniadau gorau i Mr Ian Barton sydd yn yr ysbyty. Hefyd neges o gydymdeimlad i'r Cyng. Chris Thomas ar farwolaeth ei dad-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

2. YMDDIHEURIADAU

CYNGOR SIR CEREDIGION
Cyng Robert (Hag) Harris
Cyng Ivor Williams

MUDIAD MYDTARA
Carol Davies
Elizabeth James

CYNGOR TREF LLAMBED
Cyng Robert Phillips

3. DATGELU BUDDIANNAU PESONOL
Dim.

4. COFNODION CYFARFOD 26/08/2009
Cytunwyd i gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn Swyddfa Menter Llambed ar ddydd Mercher 26ain o Awst 2009 fel cofnod cywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

5. 5.1 CYTUNDEB TORRI GWAIR

Mae'r cytundeb i dorri'r gwair wedi ei wobrwyo i Mr Mike Brown, Caerfoel, Cribyn i dorri'r gwair 6 tro o ganol Medi i ddiwedd Tachwedd. Ymgymerwyd â'r toriad cyntaf ar y 18fed o Fedi. Dyma'r unig gytundeb ysgrifenedig a

ddaeth i law. Derbyniwyd un datganiad o ddiddordeb ar lafar, ond ni ddaeth i fodolaeth.

5.2 GWAIR SY'N TYFU YR OCHR ALLANOL I'R FFENS AC YN AGOS I GWRBYN YR HEOL SY'N ARWAIN I STÂD MAESYDERI

Mae'r darn yma o dir y tu allan i amodau'r les ac nid cyfrifoldeb y Cyngor Tref yw torri'r gwair. Nid yw Yswiriant Cyfrifoldeb Cyhoeddus y Cyngor Tref yn cynnwys yr ardal hon ac felly nid yw'r CT yn gymwys i dorri'r glaswellt. Y mae dadl yn mynd yn ei blaen ar hyn o bryd gan y CSC ynglŷn â pha adran ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb o dorri'r gwair dan sylw, sydd heb ei dorri o gwbl ers derbyn y les am gyfnod o 3 blynedd gan GSC gan gychwyn ar y 13eg o Ebrill 2009. Bu'r i'r Adran Addysg dalu'r gost pan fu'r cae'n rhan o dir yr ysgol gynradd, ond ers adleoliad yr ysgol i'w safle newydd, nid yw'r Adran Addysg yn barod i gwrdd â'r gost. Y mae'r Adrannau Ystadau, Priffyrdd a Chyfreithiol ynghlwm yn y ddadl. Mawr obeithir y bydd yr Adran y Priffyrdd yn cytuno i fod yn gyfrifol am dorri'r gwair. Eglurodd Mr Peter Matthys o Gyngor Sir Ceredigion petaent yn gytûn i wneud hyn byddai nifer y toriadau yn flynyddol yn cael eu cyfyngu i 2/3 toriad yn hytrach na'r 6/7 toriad ar dir y cyngor sir gerllaw'r cae Maesyderi.

Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd Selwyn Walters yn ysgrifennu at y Cyngor Sir i geisio eglurhâd ac i gau pen y mwdwl.

5.3 TOCIO'R PERTHI

Nid yw'r berth wedi ei thorri cyn belled. Cytunodd y Cyng. Chris Thomas i osod y berth ym mis Tachwedd.

5.4 Y FFENS

Does dim gwaith wedi ei gario allan ers y cyfarfod cynt. Y Cyng. Thomas & Wilson i drwsio'r ffens.

5.5 BINIAU SBWRIEL

i'w hystyried yn ystod y dyfodol.

5.6 ARWYDDION

Boed i'r Clerc archebu a derbyn arwydd a phostyn o'r cwmni *Contract Systems* yn datgan *Dim Cŵn, Dim Sbwriel*, *Dim Mynediad heb Ganiatâd* ee aros dros-nos, cynnal barbeciw; a *Manylion Cyswllt Ffôn Mewn Argyfwng.* Cytunodd y Cyng. Wilson i osod y postyn mewn concrid ac i arddangos yr arwydd.

Y mae'r Cyng Thomas yn y broses o archebu arwyddion DIM CŴN dan law'r Heddlu.

5.7 GATIAU NEWYDD

Y mae angen i ail-osod y gât newydd – Cyng Wilson & Thomas i ymwneud â'r gwaith.

5.8 MARCIO'R PYG

Adroddwyd bod y Clwb pêl droed ynghlwm mewn trafodaethau a pherchnogion Cae'r Sioe, Pontfaen gyda'r bwriad o hirio'r cae. Penderfynwyd aros am ddatganiad o ddiddordeb o'r Clwb Pêl Droed parthed defnyddio'r cae Maesyderi. Byddai Cytundeb Ffurfiol yn cael ei osod mewn lle ar ôl hyn.

5.9 BOCS AWGRYMIADAU-DEFNYDD POSIBL AR GYFER Y CAE YN YSTOD Y DYFODOL

Nid yw'r dasg wedi ei chyflawni cyn belled. Adroddodd Elizabeth James y byddai'n cael ei chario allan yn ystod y dyfodol agos.
Trafodwyd y posibilrwydd o sefydlu Parc Sglefrio. Gellir cysylltu â Chyngor Tref Aberystwyth i ofyn cyngor. Ystyrir offer chwarae yn y gwanwyn. Tynnodd Sue Davies sylw aelodau i Barc Chwarae Castell Newydd Emlyn. Anogwyd aelodau'r pwyllgor i ymweld â'r parc yng Nghastell Newydd-Emlyn cyn y cyfarfod nesaf er mwyn darganfod syniadau y gellir eu mabwysiadu ar gyfer y Cae Maesyderi.

5.10 CEISIO GRANT DAN LAW'R HEDDLU

Nid yw'r cais am grant wedi bod yn llwyddiannus oherwydd y nifer helaeth o geisiadau. Nid oedd digon o bleideisiau wedi eu cyflwyno i warantu'r wobr. Efallai y bydd cyfle yn ystod y dyfodol i geisio grant arall.

5.11 ADRODDIAD CYNNYDD AR GYFER Y WASG

Dywedodd y Gyng Barton y byddai'n syniad werthchweil i gyflwyno adroddiad i'r Wasg i hysbysu aelodau'r cyhoedd o'r gwaith sydd wedi ei ymgymryd yn barod ar y cae a'r gwaith y bwriedir ei gyflawni'n ystod y dyfodol, i geisio ennyn diddordeb y cyhoedd a cheisio gwirfoddolwyr o'r gymuned. Er bod darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer y plant sy'n byw'n agos i'r cae roedd aelodau o'r farn y dylai Polisi Cynhwysiad fodoli. Pwysleisiwyd bod y cae yn amwynder ar gyfer holl drigolion ac ymwelwyr y dref,

5.12 MYNYDD O BRIDD AR Y CAE

Adroddwydd bod y mynydd o bridd yn cynnwys gwastraff adeiladwr a rwbel a dylir ymdrechu i waredu â'r pridd. Cytunodd y Cyng Chris Thomas i ymgymeryd â'r trefniadau priodol.

5.13 MEINCIAU AR GYFER Y CAE

Gobeithir adleoli 3 mainc o Barc-yr-Orsedd i Gae Maesyderi.

6. CYLLID
GWARIANT:

EITEM	PRIS HEB TAW	TAW £	CYFANSWM £
GÂT	365.00	54.75	419.75
ARWYDD NEWYDD	109.00	16.35	125.35
6 TORIAD GWAIR			800.00
CYFANSWM Y GWARIANT CYN BELLED			**£1,345.10**

Gan nad oedd unrhyw fater arall daeth y Cyfarfod i ben am 8.05pm.

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth 27ain o Hydref am 7.00pm. Swyddfa Menter Llambed.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)